# Gwerthuso Prosiect Ynys Môn 2017

Eis
tedd
fod

www.eisteddfod.cymru























Fferm Bodowyr, Bodedern, yng ngogledd yr ynys oedd cartref Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni, a hwn oedd y tro cyntaf i'r ŵyl ymweld â'r ardal ers 1999.

Roedd modd lleoli'r maes carafanau a Maes B yn gyfochrog â'r Maes ei hun, gyda phopeth yn hwylus ac yn agos at ei gilydd.

Etholwyd Derec Llwyd Morgan yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith, gyda Haydn Edwards yn cadeirio'r Pwyllgor Cyllid, a'r ddau'n arwain o'r blaen, yn gwbl ymroddedig i sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod ar yr ynys.

O'r cychwyn, bwriad Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith oedd sicrhau bod lle i bobl ifanc yr ynys ym mhob elfen o'r gwaith o baratoi ar gyfer yr Eisteddfod. Braf felly oedd gweld y cydweithio ardderchog rhwng pobl o bob oed ar draws y prosiect, o lywio'r gwaith o ddewis testunau a chystadlaethau i drefnu a chynnal cannoedd o weithgareddau cymunedol ym mhob rhan o'r ynys.

Roedd tîm Ynys Môn yn benderfynol o gyrraedd nod y Gronfa Leol, a dyna a wnaethpwyd, a'i basio o bron i £90,000 erbyn diwedd wythnos yr Eisteddfod. Llwyddwyd i wneud hyn dan arweiniad gofalus a threfnus y Cadeirydd, ynghyd â phwyllgorau lleol hynod weithgar a llawn syniadau, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddyn nhw oll am eu gwaith.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Gyngor Sir Ynys Môn am eu holl gymorth a'u cefnogaeth yn ystod y prosiect ac yn arbennig yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Braf oedd cael cydweithio gyda chriw a oedd mor awyddus i hyrwyddo'r iaith a'n diwylliant.

Cynhaliwyd Gŵyl y Cyhoeddi yng Nghaergybi ym Mehefin 2016, gyda'r glaw yn golygu bod rhaid cynnal y seremoni yn Ysgol Uwchradd Caergybi, ond llwyddwyd i barhau gyda'r llwyfan perfformio yng nghanol y dref yn ystod y dydd gan roi blas ar weithgaredd yr Eisteddfod i'r gymuned leol.

Braf oedd gweld cynifer o gystadleuwyr torfol ac unigol yn cymryd rhan eleni, gyda 15 côr mewn un gystadleuaeth yn unig yn ystod y penwythnos cyntaf! Gwelwyd nifer fawr o gystadleuwyr ifanc ar y llwyfan hefyd, gyda Chôr Ieuenctid Môn yn llwyddo i gipio gwobr Côr yr Ŵyl ddiwedd yr wythnos.

Ni fu'r tywydd o'n plaid ni drwy'r wythnos, ac fe ddaeth y dilyw brynhawn Sul wrth i bythefnos o law ddisgyn mewn ychydig oriau gan achosi problemau mawr, yn enwedig yn y meysydd parcio. Llwyddwyd i sicrhau bod holl drefniadau Cynllun B yn weithredol o fewn ychydig oriau, a bu'n rhaid gweithredu gwasanaeth bysiau gwennol o Fona i'r Maes am weddill yr wythnos.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwasanaethau brys, y Cyngor Sir a chwmnïau bysiau lleol am eu cymorth parod a'u cydweithrediad wrth weithredu Cynllun B, ac rydym yn arbennig o ddiolchgar i griw Clwb Rygbi Llangefni am eu holl gymorth yn y meysydd parcio drwy'r wythnos. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r holl ymwelwyr am eu cydweithrediad dan y fath amgylchiadau.

Er y tywydd garw, bu'n Eisteddfod hapus, a mawr yw ein diolch i bawb a fu'n rhan o'r prosiect dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'r wythnos ei hun am eu gwaith caled er mwyn sicrhau'i llwyddiant.


Dwin caru yr eisteddfod
Cymru
Ollie













# Y Gronfa Leol a Nawdd

Rhoddwyd targed uchelgeisiol o £325,000 i drigolion Môn. Dechreuodd y gwaith codi arian yn syth, wrth lansio ymgyrch 20:20, syniad Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cyllid, yn annog pobl i roi £20 i'r Eisteddfod dros gyfnod o 20 mis. Bu'r ymgyrch yn llwyddiant mawr, gan godi £70,000 o fewn ychydig fisoedd. Roedd hyn yn sylfaen gadarn i'r Gronfa, gan roi hwb i waith y 26 pwyllgor apêl lleol ar draws y dalgylch.

Gweithiodd y pwyllgorau lleol yn ddiwyd dros gyfnod o bron i ddwy flynedd, gyda chynrychiolaeth ym mhob rhan o'r ynys bron. Llwyddwyd i sicrhau rhoddion ar gyfer pob gwobr, gyda nifer o'r is-bafiliynau'n derbyn rhoddion ychwanegol tuag at yn sicrhau bod pob gwobr wedi'i rhoi, a bod cyfle i drigolion y dalgylch i gyd fod yn rhan o'r ymgyrchu.

Trefnwyd a chynhaliwyd cannoedd o weithgareddau a digwyddiadau codi arian, o gyngherddau mewn neuaddau pentref i grŵp o bobl yn rhedeg i mewn i'r môr yn eu pyjamas yng nghanol gaeaf, ac o berfformiad torfol o'r Meseia cyn y Nadolig i ymgyrch golli pwysau ar draws yr ynys. Braf oedd gweld cymaint o weithgaredd a brwdfrydedd, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a fu'n trefnu, mynychu a chymryd rhan yn y llu o weithgareddau.

Uchelgais dawel Haydn Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid oedd torri record Cronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr, a braf oedd gallu cyhoeddi bod hyn wedi digwydd fore Sadwrn cyntaf yr ŵyl ym Modedern.

Defnyddiwyd amryw o ffyrdd i godi arian ac mae'n amlwg erbyn heddiw bod llawer o bobl yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddefnyddio'r we neu'r ffôn clyfar er mwyn rhoi arian. Rydym yn datblygu ein defnydd o'r wefan Just Giving ac rydym wedi creu adran codi arian ar ein gwefan ni er mwyn dangos sut y gellir cefnogi'r Eisteddfod yn ariannol.

Yn ogystal, ail-lansiwyd cynllun Hapnod fel 'Loteri'r Eisteddfod' eleni, i annog rhagor o bobl i gymryd rhan er mwyn codi mwy o arian a chynyddu'r gwobrau sydd ar gael.

Bu'n flwyddyn lwyddiannus o safbwynt nawdd, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bob un o'r cwmnïau a'r busnesau lleol a chenedlaethol am eu cefnogaeth. Roedd yn braf cael nifer o noddwyr yn dychwelyd atom, ynghyd â chroesawu amryw o gefnogwyr newydd.

Rydym wedi creu nifer fawr o becynnau nawdd newydd dros y flwyddyn ddiwethaf a bydd y rhain i'w gweld ar ein gwefan yn fuan.

## Argymhellion:

- Parhau gyda chynllun codi arian 20:20 ym mhob dalgylch yn y dyfodol.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd i gefnogi'r Eisteddfod yn ariannol ymhellach drwy gydol y flwyddyn, gan dynnu sylw'n arbennig ar gyfleoedd i roi arian ar-lein a thrwy ffonau clyfar.
- Datblygu cyfres o astudiaethau achos yn edrych ar wahanol ddigwyddiadau / gweithgareddau codi arian er mwyn eu defnyddio i ysbrydoli ardaloedd eraill yn y dyfodol.
- Parhau i ddatblygu pecynnau nawdd newydd a gwahanol, gyda gwybodaeth am wahanol becynnau ar-lein. Cymryd pob cyfle i hyrwyddo'r cysyniad o noddi ar draws pob platfform marchnata.
- Datblygu cyfres o astudiaethau achos am rai o'n noddwyr er mwyn codi proffil y cysyniad o noddi'r Eisteddfod.




# Cystadlaethau

Cafwyd nifer dda o gystadleuwyr ym Môn eleni, gyda'r cyfanswm yn uwch na'r blynyddoedd diwethaf.  Gwelwyd nifer o gystadlaethau'n denu nifer fawr o gystadleuwyr gyda'r safon yn gyson uchel.

## Hyrwyddo cystadlaethau

Mae angen cynyddu'r gwaith hyrwyddo ar gyfer cystadlaethau, gan sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i hyn, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol.  Byddwn felly'n creu cyfrif Trydar penodol i hyrwyddo cystadlaethau ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cystadleuwyr heb fynd ar draws y gwaith hyrwyddo cyffredinol.  Byddwn hefyd yn edrych ar greu fideos o ambell gystadleuydd, cystadleuaeth, digwyddiad a seremonïau (e.e. y Fedal Wyddoniaeth) yn ystod yr wythnos.

Byddwn yn parhau i gynhyrchu cylchlythyr ar gyfer cystadleuwyr pan fydd y system gofrestru'n cael ei chyhoeddi, gyda gwybodaeth penodol am amserlenni hefyd yn cael eu cylchredeg drwy'r we, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr ym mis Mehefin a Gorffennaf.

## Rhagbrofion

Rydym yn dal i wynebu problemau gyda rhagbrofion yn rhedeg yn hwyr oherwydd nad yw cystadleuwyr yn cyrraedd mewn pryd.  Mae'n rhaid i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r swyddfa os oes problem, a byddwn yn gweithredu system llymach i ddelio gyda hyn yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod pethau'n rhedeg yn fwy esmwyth ac ar amser.

## Brwydr y Bandiau 2017

- 17 o fandiau a pherfformwyr wedi cystadlu – y gystadleuaeth yn cael ei gweld fel cyfle i dorri i mewn i'r sîn Gymraeg, gyda'r cyfle i chwarae ym Maes B a'r wobr ariannol o £1,000 yn werth eu hennill

- Nifer o rowndiau rhanbarthol: Caernarfon, Caerdydd a Chaerfyrddin

- Prosiect ar y cyd rhwng Maes B, BBC Radio Cymru, gyda chefnogaeth 'Cymraeg' (Llywodraeth Cymru)

- Enillwyr 2017: Alffa o ardal Caernarfon

- Enilllwyr 2016, Chroma, wedi perfformio yng ngwyliau Leeds a Reading yn haf 2017

## Cystadlaethau i ddysgwyr

Yn anffodus mae niferoedd y rheiny sy'n cymryd rhan yn y cystadlaethau perfformio yn isel, felly byddwn yn edrych ar hyn dros y flwyddyn nesaf, gan drafod gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ynghyd â'r pwyllgorau.

Y bwriad yw trafod syniadau newydd ar gyfer cystadlaethau, yn y gobaith y gellir cael timau o amgylch Cymru'n cymryd rhan ac yn cystadlu'n erbyn ei gilydd yn y cyfnod hyd at yr Eisteddfod, ac yna ym Maes D mewn system debyg i'r Ymryson boblogaidd yn y Babell Lên. Y gobaith yw cyflwyno cystadlaethau ar eu newydd wedd yn 2019.

Roedd safon ymgeiswyr Dysgwr y Flwyddyn yn uchel unwaith eto eleni, a llongyfarchiadau mawr i Emma Chappell ar ei llwyddiant yn y gystadleuaeth. Gobeithio bydd Emma'n gweithredu fel llysgennad dros ddysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn nesaf.

## Y Lle Celf

Am y tro cyntaf, roedd modd cofrestru ar-lein i geisio cael lle yn yr Arddangosfa Agored yn Y Lle Celf eleni, a braf oedd gweld nifer fawr o artistiaid yn cymryd mantais o'r cyfle newydd hwn. Er bod peth gwaith mireinio i'w wneud ar y system, y gobaith yw denu rhagor o gyfranogwyr y flwyddyn nesaf ac wrth edrych i'r dyfodol.

Byddwn yn edrych ar y ffordd mae cyfranogiad yn Y Lle Celf yn cael ei hyrwyddo a sut mae denu cyfranogwyr gan dorri i lawr ar nifer y taflenni a'r llyfrynnau a gynhyrchir a chanolbwyntio ar ddefnyddio'r we a chyfryngau cymdeithasol er mwyn gwneud hyn.

## Adeiladau

Effeithiodd y tywydd gwael ar rai o'r cystadlaethau offerynnol yn y Pagoda ar y prynhawn a nos Sul gyda'r gwynt a'r glaw yn amharu ar y sain yn yr adeilad. Bu ambell gŵyn hefyd am sŵn yn effeithio ar gystadlaethau eraill oherwydd bod waliau'r adeilad a'r Stiwdio'n denau. Ni fydd hyn yn broblem yng Nghaerdydd ond bydd angen edrych i weld a oes modd cael strwythurau gwell mewn lle ar gyfer Eisteddfod 2019.

## Cofrestru ar-lein

Bu’r system gofrestru ar-lein yn boblogaidd iawn unwaith eto ymysg ein cystadleuwyr gyda’r system ar gael o fis Ionawr ymlaen.

Gwnaethpwyd peth gwaith ar gefn y system yn dilyn ei chreu’r llynedd, ond mae angen rhagor o waith er mwyn hwyluso’r system ar gyfer y staff fel bod modd torri i lawr ymhellach ar waith ac amser yn ystod y cyfnod mwyaf prysur.

Byddwn yn trafod hyn gyda’r darparwyr cyn y Nadolig er mwyn rhoi cyfle i’r gwaith gael ei wneud cyn i’r system fynd yn fyw ym mis Ionawr.

Mae hefyd angen i ni edrych ar beth mae’r system yn gallu’i gynnig er mwyn gweld a ydym yn ei defnyddio i’w llawn botensial, a byddwn eto’n trafod hyn gyda’r darparwyr.

Mae’r system wedi cael croeso cynnes gan gystadleuwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae angen parhau i’w hyrwyddo fel y ffordd fwyaf hawdd i gofrestru ar gyfer cystadlaethau llwyfan.

## Adnodd cyfeilio ar-lein

Am y tro cyntaf eleni, roedd modd gwrando ar gyfeiliannau ar gyfer y darnau gosod ar wefan yr Eisteddfod. Rydym yn ddiolchgar iawn i Annette Bryn Parri am ei gwaith arbennig yn recordio pob un o’r darnau gosod unigol yn y Rhestr Testunau, gan ein galluogi i gynnig gwasanaeth newydd a gwerthfawr i gystadleuwyr wrth iddyn nhw ymarfer cyn yr Eisteddfod.

Cafodd yr adnodd groeso mawr, gan olygu bod modd i gystadleuwyr ymarfer gyda chyfeiliant proffesiynol unrhyw bryd, a’r gobaith yw y gallwn barhau i gynnig gwasanaeth fel hyn yn y dyfodol.

Gellir gweld yr adnodd yma, https://eisteddfod.cymru/mon-2017/cystadlaethau/ymarfer-gydar-piano

## Niferoedd Cystadlu 2017:

- Cystadleuwyr llwyfan: 1,685
- Cystadleuwyr cyfansoddi: 886
- Cystadleuwyr celfyddydau gweledol: 180
- Cyfanswm: 2,751
- Ceir rhestr llawn o’r canlyniadau ar-lein, www.eisteddfod.cymru/canlyniadau-2017, neu gelllir eu gweld fesul diwrnod yn adran archif 2017. Pob côr / band / parti yn un cystadleuydd








# Argymhellion:

- Datblygu'r gwaith o hyrwyddo cystadlaethau gan greu cyfrif Trydar penodol ac mynd ati i greu fideos yn ystod Eisteddfod Caerdydd
- Gweithredu system lymach wrth reoli amserlenni rhagbrofion o 2018 ymlaen, gan sicrhau bod cystadleuwyr yn ymwybodol o'r system erbyn mis Mehefin
- Parhau i gydweithio gyda BBC Radio Cymru ar gynllun Brwydr y Bandiau, a pharhau gyda'r arfer o redeg rowndiau rhanbarthol o amgylch Cymru yn y cyfnod hyd at yr Eisteddfod
- Trafod syniadau newydd ar gyfer cystadlaethau perfformio yn Adran y Dysgwyr gyda'r pwyllgorau perthnasol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cyflwyno cystadlaethau gwahanol yn 2019
- Parhau i gynnig cofrestru ar-lein ar gyfer Y Lle Celf yn 2018, gan annog rhagor i ddefnyddio'r adnodd
- Asesu nifer a'r angen i gynhyrchu ffurflenni cais papur ar gyfer Y Lle Celf gan edrych ar sut a lle maen nhw'n cael eu dosbarthu ar hyn o bryd
- Edrych ar adeiladau mwy pwrpasol ar gyfer cynnal rhagbrofion ar y Maes o Eisteddfod 2019 ymlaen
- Parhau gyda'r system cofrestru ar-lein ar gyfer cystadlaethau llwyfan, gan lansio system Eisteddfod Caerdydd ym mis Ionawr 2018
- Cyfarfod y darparwyr er mwyn sicrhau bod ochr weinyddol y system yn cyflwyno gwybodaeth mewn modd sy'n hwyluso gwaith staff yr Eisteddfod, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur
- Sicrhau ein bod ni'n defnyddio'r system i'w llawn botensial, a thrafod a oes modd i ni gynnwys unrhyw beth arall a fyddai'n hwyluso'r broses ymhellach i'n defnyddwyr yn y dyfodol
- Annog rhagor eto i gofrestru ar-lein yn hytrach na defnyddio ffurflenni papur







## Cyngherddau

Cynhaliwyd cyfres o gyngherddau yn y Pafiliwn gyda'r nos unwaith eto eleni:

- **Nos Wener 4 Awst: A Oes Heddwch?** Gan gymryd hanes enillydd y Gadair Ddu, Hedd Wyn, fel ysbrydoliaeth, dyma stori'r bechgyn a aeth i'r rhyfel ganrif yn ôl a'r gymuned a adawyd ar ôl yma yng Nghymru.

- **Nos Sadwrn 5 Awst: Gwyn Hughes Jones** Cyfle i glywed hen ffefrynnau ac ambell gân newydd, yng nghwmni Gwyn a'r unawdwyr ifanc, Steffan Lloyd Owen, Meilir Jones, Llio Evans a Meinir Wyn Roberts. Gydag Iwan Llewelyn-Jones ar y piano ac Ensemble Siambr Rhys Taylor.

- **Nos Sul 6 Awst: Cymanfa Ganu** Mari Lloyd Pritchard yn arwain, gyda Seindorf Biwmares a'u harweinydd, Gwyn Evans yn cyfeilio. Yr organydd oedd Grês Pritchard.

- **Nos Lun 7 Awst: Noson Lawen Ynys Môn** Dilwyn Morgan yn cyflwyno Elin Fflur, Côr Glanaethwy, Eilir Jones, Wil Tân, Trio, Y Tri Trwmpedwr (Gwyn Evans, Gwyn Owen a Cai Isfryn), Bach a Mawr ac Edern.
-
- **Nos Fawrth 8 Awst: Hynna Be Di O - Y Sioe Lwyfan Criw Tudur Owen yn dod ynghyd gyda l**lond carafán o westeion wedi'u trefnu gan Manon, llond adlen o gerddorion wedi'u dewis gan Dyl Mei a digon o chwerthin gan Tudur i lenwi Elsan. Mymryn bach o sylwedd, fawr ddim swmp ond llond lle o hwyl - Hynna Be 'Di o!

- **Nos Iau 10 Awst: Gig y Pafiliwn** Huw Stephens yn cyflwyno Yws Gwynedd, Yr Eira, Alys Williams a Mr Phormula gyda Cherddorfa'r Welsh Pops Orchestra.










A OES
HEDDWCH?

Os mai Gig y Pafiliwn oedd stori fawr cyngherddau'r Eisteddfod yn Sir Fynwy'r llynedd, yna roedd llygaid pawb ar y cyngerdd agoriadol ym Môn eleni.

Roedd y prosiect yn bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Cydlynydd y prosiect oedd Mari Lloyd Pritchard a'r cyfarwyddwr oedd Siwan Llynor.

Y gwaith gwreiddiol hwn gan Aled a Dafydd Hughes (Cowbois Rhos Botwnnog), Guto Dafydd, Paul Mealor a Grahame Davies oedd prosiect Côr yr Eisteddfod eleni. Bu bron i 250 o aelodau'n ymarfer dros fisoedd y gaeaf, cyn cael cyfle i gyd-berfformio gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Osian Huw Williams, Casi Wyn, Emyr Gibson, Lleuwen Steffan a Gwen Elin. Arweinydd y gerddorfa ar y noson oedd John Quirk a fu hefyd yn gyfrifol am drefnu'r gerddoriaeth ar eu cyfer.

Roedd eleni'n ganmlwyddiant Eisteddfod y Gadair Ddu a marwolaeth Hedd Wyn, a dyma a ysbrodolodd y gwaith, gan greu canolbwynt i gyfres o ddigwyddiadau a drefnwyd ar y Maes i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Mawr.

Roedd yn brosiect uchelgeisiol na fyddai wedi gallu cael ei lwyfannu gyda'r adnoddau yn yr hen Bafiliwn, a mawr yw ein diolch i'r rheiny a fu'n gyfrifol am y goleuo a'r sain ar y noson, gan greu effeithiau arbennig a thrawiadol.

Y gobaith yw y bydd modd i'r gwaith gael ei berfformio eto yn y dyfodol ac y bydd y caneuon yn cael eu canu gan gorau ac unigolion am flynyddoedd i ddod.

Bu'n brofiad bythgofiadwy i'r côr ac i bawb a fu'n rhan o'r prosiect, gan atgyfnerhu'i bwysigrwydd fel prosiect addysg gydol oes, ac rydym yn ddiolchgar i'r partneriaid a'r tîm artistig i gyd am eu gwaith a'u hymroddiad i brosiect arbennig iawn.



"Rydw i wedi canu ar lwyfannau amrywiol ers degawdau bellach a tydw i erioed wedi teimlo awyrgylch mor drydannol ag oedd yna yn y pafiliwn ar y noson agoriadol.

"Roedd cysgod y Rhyfel Mawr yna efo ni a'r blynyddoedd wedi toddi am y noson. Yr hogiau a'u teuluoedd oedd ar y gorwel wrth inni ymchwilio ac ymarfer a dim ond yn ystod y perfformiad ei hun y daeth hynny i'r amlwg i ni.

"Dyna fraint anhygoel oedd bod yn ran o'r daith. Diolch!"

Lleuwen Steffan


PENTREF LLÊN




Y BABELL LÊN
PENTREF DRAMA
Y LLE CELF






PENTREF DRAMA


THEATR


MAES D





# Lleoliadau ar y Maes

Dyma oedd ail flwyddyn contract y **Pafiliwn** gyda Neptunus yn dilyn llwyddiant yr adeilad yn 2016. Er bod ambell broblem gyda sain mewn rhai rhannau o'r Pafiliwn, roedd yr ymateb yn ardderchog unwaith eto eleni, gyda'r strwythur newydd yn cynnig llawer mwy o opsiynau ar gyfer llwyfannu uchelgeisiol.

Roedd y **Babell Lên** yn adeilad llai eleni, a gweithiodd hyn yn llawer gwell. Wrth symud seremonïau'r Orsedd mewn tywydd gwlyb i Dawns, crëwyd cyfle i fod yn llawer mwy creadigol gyda'r Babell Lên, a chreu set cwbl wahanol i'r gorffennol. Gweithiodd y set yn dda, ac roedd hefyd yn edrych yn drawiadol ar y teledu. Byddwn yn edrych ar elfennau fel nifer y goleuadau ar y llwyfan dros y misoedd nesaf.

Unwaith eto, gweithiodd lleoliad **Gŵyl Llên Plant** a'r **Gornel Ddarllen** yn dda, a chyda **Llwyfan y Llannerch** a'r bar coctels bychan, roedd y Pentref Llên yn teimlo'n fwy fel ardal eleni yn hytrach na chyfres o stondinau a strwythurau.

Bydd Eisteddfod Caerdydd yn gyfle i feddwl am rôl a dyfodol y **Ganolfan Ymwelwyr** ar ei ffurf bresennol, gan y byddwn yn defnyddio nifer o 'hybs' gwybodaeth yn y Bae yn hytrach nag un ganolfan ganolog.

Roedd **Y Lle Celf** ymysg y lleoliadau mwyaf poblogaidd ar y Maes, ac roedd gweithiau'r arddangosfa agored yn ffitio'n berffaith o fewn y gofod. 'Troelli' gan Manon Awst oedd yr arddangosfa arbennig eleni. Gweithiodd y lleoliad, yn agos at y Pentref Drama a'r Tŷ Gwerin, yn dda iawn eleni. Cynhyrchwyd fideo 360 ardderchog o Y Lle Celf i'w ddefnyddio ar-lein ac roedd hwn yn arbennig o boblogaidd yn ystod ac ar ôl yr Eisteddfod, a'r gobaith yw y gallwn gynhyrchu rhywbeth tebyg yn y dyfodol gan ychwanegu at archif Y Lle Celf.

Braf oedd croesawu **Sinemaes** yn ôl yn dilyn llwyddiant Sir Fynwy a'r Cyffiniau. Mae'r porth sy'n arwain at y **Pentref Drama** yn drawiadol ac yn creu ymdeimlad o ardal. Bydd creu ardaloedd yn bwysig yn y Bae yn 2018, a braf felly bod y Pentref Drama wedi ennill ei blwyf, er bod ambell syniad gwreiddiol iawn a newydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ynni oedd prif thema'r **Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg** eleni, gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn arwain ar y gwaith o drefnu'r pafiliwn ar ein rhan. Gyda chynifer o arddangoswyr yn rhannu gofod, mae angen i ni edrych yn fanylach ar y cynllun mewnol er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r ardal i'w lawn botensial a'i fod mor ddeniadol â phosibl. Fel arfer, dyma oedd un o leoliadau mwyaf poblogaidd y Maes.

Ers rhai blynyddoedd, roedd y trefnwyr yn teimlo nad oedd y Neuadd Arddangos yn enw addas ar yr adeilad sy'n gartref i nifer o grefftwyr, artistiaid ayb. Eleni felly, penderfynwyd newid yr enw i **Artisan**, a chafodd hyn ymateb da. Roedd yr arwydd newydd yn edrych yn drawiadol iawn.

Roedd Gorsedd y Beirdd yn fodlon gyda'u lleoliad newydd mewn tywydd gwael, **Dawns**, ond roedd teimlad bod yr adeilad yn rhy bell o'r ystafelloedd newid pan ddaeth y glaw. Mae angen edrych eto ar y llawr yn yr adeilad ar gyfer y dyfodol.

Roedd lleoliad **Maes D** yn arbennig o dda eleni, yn agos iawn at y brif fynedfa, gan sicrhau ei fod yn weledol iawn o bob cyfeiriad. Roedd y babell yn orlawn drwy'r wythnos, ond mae angen edrych ar ffyrdd o annog dysgwyr i fynd i grwydro gweddill y Maes. Bydd 2018 yn gyfle i wneud hyn ac edrych ar yr amserlen mewn ffordd wahanol a newydd.

Unwaith eto eleni, roedd pobl yn crwydro i gefn y llwyfan o'r **Lolfa Cystadleuwyr**, felly mae'n rhaid edrych eto ar y system o roi mynediad. Bydd hyn yn berthnasol iawn y flwyddyn nesaf yn Theatr Donald Gordon, a gobeithio y gallwn roi'r hyn a fyddwn yn ei ddysgu ar waith yn 2019.

Mae **Cymdeithasau**'n parhau i ddenu cynulleidfa fawr ac eang, gyda nifer o sesiynau'n llawn. Mae angen i ni barhau i hyrwyddo'r gweithgareddau ac edrych ar ffyrdd newydd i farchnata'r sesiynau i'r rheini sydd ar y Maes.

Nid oedd y **Pagoda'n** ddigon mawr ar gyfer rhai o'r cystadlaethau a'r rhagwrandawiadau torfol eleni, felly byddwn yn ystyried cynnal rhai sesiynau yn Dawns yn y dyfodol. Cafodd y tywydd effaith ar yr amodau cystadlu ddydd Sul gyda'r gwynt a'r glaw yn tarfu ar gystadlaethau. Er bod y tywydd y diwrnod hwnnw yn anghyffredin o wael, mae angen i ni edrych ar adeiladau mwy cadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae effaith sŵn ar ragbrofion a chystadlaethau'n gŵyn flynyddol yn y Pagoda a'r **Stiwdio**, ond mae pawb hefyd yn awyddus i'r canolfannau hyn fod yng nghanol y Maes yn hytrach nag ar y cyrion. O'r herwydd, mae'n mynd i fod yn amhosibl sicrhau nad oes unrhyw sŵn yn cario i'r adeilad. Opsiwn arall yw cynnal rhagbrofion a'r cystadlaethau a geir yn y Pagoda mewn canolfannau yn y dref agosaf.

Erbyn hyn, **Tŷ Gwerin** yw un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd ar y Maes, ac mae'n gartref ardderchog i'r traddodiadau gwerin. Mae'n adeilad anodd ei stiwardio gan mai mynedfeydd sydd iddo'n hytrach na drysau traddodiadol. Mae'r gynulleidfa'n symud o gwmpas yn gallu effeithio at ambell gystadleuaeth, ond dylid cofio mai cystadlaethau gwerinol eu naws yw'r rhain heb ffurfioldeb cystadlaethau'r Pafiliwn. Bydd stondinau'r partneriaid wedi'u lleoli y tu allan i'r yurt y flwyddyn nesaf gan greu rhagor o ofod yn yr adeilad.

Lleoliad arall sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf yw **Caffi Maes B**, ac eleni, roedd trydydd tepee wedi'i ychwanegu at y strwythur. Unwaith eto, roedd y rhaglen yn taro deuddeg, gyda nifer o sesiynau comedi poblogaidd iawn, gan gynnwys Cabarela, a lwyddodd i ddenu cynulleidfa eang iawn.

Bu'r Eisteddfod yn adnabyddus am arbrofi gyda thechnoleg newydd ers blynyddoedd, ac eleni, roedd **Ogof 360** wedi'i leoli wrth ymyl Caffi Maes B. Roedd hwn yn lleoliad newydd amgen ac yn gyfle i arbrofi gyda thechnoleg VR. Roedd cynnwys fel sesiynau VR gyda Yws Gwynedd ac Ed Holden wedi'u paratoi a ffilmiwyd setiau bandiau ym Maes B yn ystod yr wythnos, ac yna roedd cyfle i'w gwylio mewn technoleg 360 yn yr Ogof. Roedd yn brofiad cwbl unigryw i ymwelwyr ac yn gyfle i ymgolli yn y profiad yn llwyr. Rydym yn ddiolchgar i'r Llywodraeth am gefnogi'r prosiect.

**Llwyfan y Maes** oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd ar Faes yr Eisteddfod eleni yn ôl ymchwil gan Brifysgol Caerdydd, a ddangosodd bod 75% o'n hymwelwyr wedi bod i ardal y Llwyfan yn Ynys Môn. Erbyn hyn mae'r slot nos Wener wedi ennill ei blwyf fel cyfle i weld hen ffefrynnau, ac Eden oedd ar y llwyfan eleni, a chyhoeddwyd hyn gydag ymgyrch arbennig ar gyfryngau cymdeithasol yn gynharach yn y flwyddyn. Mae angen edrych ar system sy'n taflu sain i un lle'n unig ar gyfer y dyfodol, gan fod sŵn o'r Llwyfan wedi amharu ar weithgareddau mewn ambell leoliad gerllaw.

Cafodd yr ardal **Tocynnau** ei harddu rywfaint eleni, ond mae gwaith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau'i fod yn ardal groesawgar. Fel gyda'r Ganolfan Ymwelwyr, bydd 2018 yn gyfle i arbrofi a gweld beth fydd yn gweithio yn y dyfodol.



## Argymhellion:

- Parhau gyda delwedd debyg yn y Babell Lên yn 2018
- Edrych ar lwyddiant yr 'hybs' gwybodaeth yn 2018 er mwyn ystyried dyfodol a datblygiad y Ganolfan Ymwelwyr o 2019 ymlaen
- Sicrhau bod fideo 360 o'r arddangosfa yn Y Lle Celf yn cael ei gynhyrchu cyn dechrau'r wythnos ac ar gael ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol
- Ystyried cynllun mewnol y Pafiliwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio'r gofod i'w lawn botensial
- Parhau gyda'r enw 'Artisan' ar yr hen Neuadd Arddangos
- Parhau i gynnal seremonïau'r Orsedd yn Dawns os yw'r tywydd yn wael, ond gan geisio sicrhau bod yr adeilad yn ddigon agos at yr ystafelloedd newid
- Ystyried sut i annog ymwelwyr Maes D i grwydro'r Maes, ac edrych ar yr amserlen mewn ffordd newydd
- Ystyried sut mae rheoli mynediad i gefn y llwyfan o'r Lolfa Cystadleuwyr
- Ymchwilio i adeiladau mwy cadarn ar gyfer y Pagoda a'r Stiwdio yn y dyfodol, gan edrych hefyd ar eu lleoliad a lleoliad rhagbrofion yn gyffredinol
- Tynnu stondinau'r partneriaid allan o'r Tŷ Gwerin, gan eu gosod gerllaw a chychwyn datblygu'r cysyniad o Bentref Gwerin i'r dyfodol
- Parhau i ddefnyddio tepee ychwanegol fel rhan o Gaffi Maes B pan fo gofod ar gael
- Edrych ar system sy'n taflu sain i un cyfeiriad ar gyfer Llwyfan y Maes er mwyn torri ar gwynion o leoliadau gerllaw
- Parhau i harddu ardal y Tocynnau, gan ddefnyddio 2018 fel cyfle i asesu anghenion yr ardal


ARTISAN






COWBOIS




siopypethe.cym


awen 01678 520658
meirion




STWFF







# Masnachwyr ar y Maes

Fel gyda thocynnau a safleoedd ar y maes carafanau, roedd galw mawr am stondinau cyn gynted ag y cyhoeddwyd y manylion ar gyfer 2017. Roedd 75% o'r stondinau wedi'u llogi o fewn deng niwrnod.

Gweithiodd y syniad o leoli'r rhan fwyaf o'r stondinau gyda'i gilydd wrth ymyl y brif fynedfa'n dda. Roedd yn braf cael pawb gyda'i gilydd, gyda rheidrwydd ar ymwelwyr i gerdded drwy'r strydoedd o stondinau er mwyn cyrraedd gweddill y Maes.

Ni fydd modd i hyn ddigwydd yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf, oherwydd strwythur y Maes, ond y gobaith yw y gallwn weithio tuag at wneud hyn o 2019 ymlaen.

Eleni, roedd deuddeg o arlwywyr ar y Maes ynghyd â bwyty trwyddedig Platiad. Roedd un-ar-ddeg o'r rhain yn dod o Gymru, ac roedd y bwyd yn cynnwys pizzas ffwrn goed, bwyd Indiaidd, bwyd Mecsicanaidd, bwyd llysieuol a fegan a paella a thapas. Unwaith eto eleni, roedd y Pentref Bwyd wedi'i leoli wrth ymyl Llwyfan y Maes.

Roedd dau far yn ardal y Pentref Bwyd hefyd, ac roedd Syched, y bar sy'n gwerthu cwrw a seidr o Gymru wedi'i leoli yn yr ardal wrth ymyl y Tŷ Gwerin a Chaffi Maes B.

Erbyn hyn mae angen trin Syched fel lleoliad digwyddiadau anffurfiol, gan fod cymaint o bobl yn cyfarfod yno gyda'r nos, yn arbennig corau a phartïon. Mae angen i ni ystyried hyn wrth leoli'r bar yn y dyfodol fel nad yw'r mwyniant yn amharu ar weithgareddau eraill.

Roedd sesiynau DJ wedi'u trefnu yn yr ardal ddiwedd yr wythnos, ond nid ydym yn bwriadu gwneud hyn eto, gan nad oedd angen unrhyw adloniant strwythuredig yn yr ardal. Byddai cael rhagor o le i eistedd y tu allan i'r bar wedi plesio nifer fawr o ymwelwyr gan ei fod mor boblogaidd, yn enwedig tuag at ddiwedd yr wythnos.

Rydym yn gwerthfawrogi bod y tywydd garw ar ddechrau'r wythnos wedi creu amodau anodd i'n masnachwyr fel ein hymwelwyr, ac rydym yn ddiolchgar iddynt am fod mor amyneddgar ac am eu cydweithrediad.

## Stondinau ac Unedwyr 2017

- 206 o stondinau ar y Maes
- 40 o arddangoswyr yn Artisan
- 26 o gwmnïau lleol (Ynys Môn ac ardal Caernarfon) yn arddangos yn yr Eisteddfod am y tro cyntaf
- Cyfanswm o 32 o stondinwyr ac arddangoswyr lleol
- 43 o stondinwyr yn arddangos am y tro cyntaf ym Môn
- 23 o'r arddangoswyr newydd yn siopau neu fusnesau (amryw o'r rhain yn rhannu felly mae nifer y siopau / busnesau yn debygol o fod yn uwch)




MAES B


EISTEDDFOD










MAES B






EISTEDDFOD

# Meysydd yr Eisteddfod

## Y Prif Faes

Penderfynwyd dod â'r Eisteddfod i ardal Bodedern yn dilyn trafodaethau hir gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Nid oedd yr Eisteddfod wedi bod i ogledd yr ynys am flynyddoedd lawer, ac roedd yr ardal yn hwylus ar gyfer trafnidiaeth, ac yn ymateb i ofynion eraill yr Eisteddfod.

Unwaith eto eleni, roedd llawer o waith wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod y Maes yn edrych yn ddeniadol, gyda gweithiau celf cyhoeddus, arteffactau a digonedd faneri lliwgar i'w gweld, ac roedd hyn yn ychwanegu at yr ymdeimlad o ŵyl.

Roedd yn braf cael digonedd o le ar y Maes, ac roedd y gwahanol ardaloedd yn amlwg, gyda'r gwaith o gynyddu proffil y Pentref Llên wedi gweithio'n dda eleni. Roedd yr ardal o amgylch y Tŷ Gwerin a Chaffi Maes B yn ddeniadol, gyda'r traeth nid yn unig yn boblogaidd iawn gyda phlant o bob oed, ond hefyd yn cynrychioli traethau'r ynys.

Roedd y glaw trwm yn ergyd i bawb ar y prynhawn Sul, a bu timau o bobl yn gweithio er mwyn ceisio lleihau'i effaith ar y Maes, ar ein hymwelwyr a'n stondinwyr. Bu timau o wirfoddolwyr, staff a chontractwyr yn gweithio am oriau er mwyn sicrhau bod modd cynnal yr Eisteddfod ddydd Llun, ac rydym yn arbennig o ddiolchgar i dîm y Maes am eu holl waith yn ceisio arbed y caeau.

Oherwydd arbedion ariannol hanesyddol, rydym yn defnyddio cerrig er mwyn creu llwybrau yn hytrach na thracfyrddau lle bo'n bosibl. Eleni, roedd rhai o'r cerrig yn fawr ac yn drwsgl ac achosodd hyn broblemau i rai ymwelwyr wrth geisio symud o gae i gae.

Rydym yn ymwybodol o'r angen i ddod â rhywun annibynnol sydd â phrofiad o reoli digwyddiadau i'r Maes cyn y digwyddiad er mwyn ein cynghori ar beth sydd yn gweithio, beth sy'n debygol o achosi problemau, a beth y gellir ei wneud ar fyrder.

## Meysydd Parcio

Yn dilyn y glaw, ni fu modd defnyddio'r meysydd parcio wrth ymyl y Maes, a bu staff yn trafod ac yn dilyn cyngor gan yr Heddlu ynglŷn â hyn yn ystod yr wythnos.

Am y tro cyntaf, bu'n rhaid gweithredu Cynllun B. Heb y cynllun hwn mewn lle ac yn barod i'w weithredu o fewn ychydig oriau, ni fyddai'r ŵyl wedi gallu parhau. Roeddem yn fodlon iawn gyda'r ffordd y gweithiodd y cynllun wrth gefn, ac er bod ciwiau'n broblem, yn enwedig ar y bore Llun wrth i'r system ddod i drefn, roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn fodlon gyda'r hyn a drefnwyd a sut y gweithiodd pethau am weddill yr wythnos.

Gweithiodd gwirfoddolwyr Clwb Rygbi Llangefni'n eithriadol o galed yn ystod yr wythnos, ac rydym yn diolch iddyn nhw am eu holl waith. Rydym hefyd yn ddiolchgar i 'r gwirfoddolwyr a chwmni Telgwen a fu'n gyfrifol am helpu ymwelwyr i symud eu ceir yn ystod ac yn dilyn y glaw ddydd Sul.

Cawsom gydweithrediad ardderchog gan y cwmni bysiau, ac roeddem yn ffodus iawn bod gan y cwmni brofiad o redeg gwasanaethau bws gwennol yn lleol yn y gorffennol.

Defnyddiwyd pob math o elfennau cyfathrebu er mwyn ceisio cyrraedd ein hymwelwyr, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, y we, y wasg a'r cyfryngau, cyhoeddiadau o'r llwyfan, posteri ar y Maes a chyhoeddiadau ar raglenni o'r Maes.

## Maes Carafanau

Gwerthodd y maes carafanau'n eithriadol o gyflym eleni.  Roedd 60% o'r safleoedd wedi'u llogi o fewn wythnos, gyda phob safle carafán wedi gwerthu erbyn dechrau Mawrth a'r maes pebyll teuluol hefyd yn llawn erbyn dechrau Gorffennaf.

Rhoddodd hyn gyfle i drigolion lleol gynnig safleoedd ar gyfer carafanwyr, a gobeithio bod y neges yn glir i'r dyfodol, bod rhaid archebu lle ar 1 Chwefror yn hytrach na disgwyl am fisoedd cyn gwneud.

Roedd tîm newydd yn rheoli'r maes carafanau eleni, ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw am eu gwaith.  Nid eleni oedd y flwyddyn orau i gychwyn ar y gwaith, gydag ansawdd y tir mewn mannau'n broblem yn ogystal â'r tywydd gwael.

Cafwyd nifer o argymhellion gan y tîm gan gynnwys gofyn i garafanwyr roi gwybod ar ba ddiwrnod maen nhw'n debygol o gyrraedd, gan y byddai hyn yn helpu i strwythuro'r anghenion staffio ddechrau'r wythnos.

Byddwn hefyd yn edrych ar amseru casglu carafanau sydd wedi'u llogi ar y dydd Sul olaf, gan fod llawer o'r problemau ar y bore wedi'u creu gan geir yn ceisio croesi'r traffig i gasglu carafanau.

Cawsom ein siomi'n ddirfawr gyda'r siop a'r lle bwyta.  Roeddem wedi bod mewn trafodaethau lleol am nifer o fisoedd ac roeddem dan yr argraff bod popeth mewn llaw tan ychydig wythnosau cyn yr Eisteddfod.

Roedd y siop yn llawer rhy fach, a bu'n rhaid dibynnu ar fan fwyd bychan nad oedd yn gallu cynnig gwasanaeth i faes carafanau mor fawr.

Mae sicrhau siop o safon ar y maes carafanau'n angenrheidiol, ond byddwn yn ystyried yr angen am le bwyta ar y safle, pan fo'r Maes wedi'i leoli'n gyfochrog.

## Maes Pebyll Teuluol

Bu'n rhaid symud rhai pebyll oherwydd y tywydd, ac roedd hyn yn golygu bod rhai pobl yn aros yn bell oddi wrth y cyfleusterau ar gael.  Rydym yn ddiolchgar iawn i'r teuluoedd hyn am eu cydweithrediad.

Cafwyd rhai cwynion nad oedd modd parcio car wrth ymyl eu pabell yn ystod yr wythnos. Mae'n amlwg erbyn hyn bod gan nifer fawr o ymwelwyr bebyll enfawr nad ydynt yn ffitio o fewn y safle sydd wedi'i logi.

Wrth ychwanegu'r ffaith bod teuluoedd a ffrindiau'n creu 'compownd' bychan o amgylch eu pebyll, mae gofod yn mynd yn brin iawn gan effeithio ar y lle sydd ar gael i wersyllwyr eraill barcio'u ceir.

Bydd angen i ni edrych ar faint y safleoedd yn y dyfodol, yn ogystal â gofyn i bobl gadw o fewn eu safleoedd ac ystyried anghenion ymwelwyr eraill o'u cwmpas.



## Maes peByll

Roedd Maes B a'r Maes peByll wedi'u lleoli wrth ymyl y maes carafanau gan sicrhau bod popeth yn agos at ei gilydd eleni.

Fel gyda'r maes carafanau a'r maes pebyll teuluol, roedd y maes ar gyfer pobl ifanc hefyd yn boblogaidd iawn eleni, a'r niferoedd gyda'r uchaf erioed.

Er ein bod wedi hysbysu'r ffaith bod yn rhaid bod yn 16 oed i aros ar y maes ac i fynychu Maes B a bod angen ID penodol ar gyfer y rheini rhwng 16 a 18, ers i'r tocynnau fynd ar werth, roedd nifer yn hwyr iawn yn sylweddoli bod rhaid archebu ID derbyniol.

Achosodd hyn broblemau yn ystod y dyddiau hyd at ddechrau Maes B, gan nad oedd pobl wedi darllen yr wybodaeth a oedd ar-lein neu wedi cymryd sylw o negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd angen i ni wneud gwybodaeth am ID yn fwy amlwg ar ein gwefannau a bydd rhaid sicrhau ei fod hefyd yn cael ei gynnwys yn amlwg ar y sgrin wrth i bobl brynu tocynnau ar gyfer Maes B.

Byddwn yn parhau gyda'r polisi hwn yn y dyfodol, a dim ond y mathau o ID sydd wedi'i nodi ar ein gwefan ac yn ein deunyddiau hyrwyddo fydd yn dderbyniol. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw ID wedi'i ffotocopïo neu luniau ar y ffôn.

Mae'n rhaid cysoni archwiliadau wrth i bobl gyrraedd y Maes peByll. Rydym yn argymell mabwysiadu polisi 'Atal, Dilyn, Diogelu' (Prevent, Pursue, Protect) a chael cyngor gan asiantaeth arbenigol.

Byddwn yn parhau i dynnu sylw at yr wybodaeth yma yn ein holl waith drwy gydol y flwyddyn.

Eleni, roedd y gwasanaeth lles yn cael ei gynnal ar y cyd gan St John Cymru – Wales a Bugeiliaid Stryd Bangor. Cafwyd ymateb da i'r gwasanaeth gyda nifer yn elwa ohono yn ystod yr wythnos.

## Argymhellion:

- Angen rhagor o wybodaeth leol a chyngor am ansawdd tir wrth wneud penderfyniad ar gyfer tir, gan sicrhau cyngor gan beiriannydd sifil
- Angen edrych ar y defnydd o gerrig ar lwybrau ar y Maes, ac edrych eto ar gostau sicrhau tracfyrddau er mwyn hwyluso hygyrchedd
- Angen sicrhau gwasanaeth unigolyn sydd â phrofiad o reoli gwyliau i gynnig cyngor gwrthrychol am y Maes yn y cyfnod cyn i'r Eisteddfod gychwyn
- Parhau gyda'r gwaith o harddu'r Maes yn y dyfodol
- Sicrhau bod Cynllun B mewn lle yn flynyddol a bod modd ei roi ar waith o fewn ychydig oriau
- Sicrhau bod yr wybodaeth am Gynllun B wedi'i raeadru i bawb sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli ar y Maes a bod modd defnyddio pob math o gyfathrebu er mwyn cyrraedd ymwelwyr ar y Maes a'r rheini sy'n bwriadu ymweld y diwrnod canlynol
- Atgoffa carafanwyr y gorffennol bod safleoedd yn mynd ar werth ar 1 Chwefror a bod angen archebu lle'n fuan
- Gofyn i garafanwyr ar ba ddiwrnod maen nhw'n debygol o gyrraedd er mwyn strwythuro anghenion staffio ar y maes carafanau
- Ystyried amseru casglu carafanau sydd wedi'u llogi ar y dydd Sul olaf er mwyn torri i lawr ar wrthlif yn y traffig
- Sicrhau bod gennym siop o safon ar y maes carafanau'n flynyddol ac ystyried yr angen am fwyty ar y safle pa fo'r Maes yn gyfochrog
- Sicrhau bod pebyll yn cael eu gosod o fewn safle penodedig ar y maes pebyll teuluol
- Parhau gyda'r polisi ID yn y dyfodol, a sicrhau bod pawb yn ymwybodol na fyddwn yn derbyn ffotocopïau na lluniau o ID
- Sicrhau bod gwybodaeth am ein polisi oedran ac ID yn amlwg ar ein gwefannau, cyfryngau cymdeithasol ac wrth brynu tocynnau ar-lein
- Mabwysiadu polisi Atal, Dilyn, Diogelu, a chael Cyngor gan asiantaeth arbenigol ar sut i'w weithredu
- Parhau i gynnig gwasanaeth lles o safon ar y safle drwy gydol yr wythnos



MAES B




MAES B






MAES B


# Maes B

Torrodd Maes B Eisteddfod Ynys Môn bob record, gyda bron i 13,000 o bobl yn dod i'r ŵyl eleni. Roedd mwy nag erioed hefyd wedi prynu tocynnau ymlaen llaw fel rhan o'r cynllun bargen gynnar, gan atgyfnerthu llwyddiant y cynllun hwnnw ar draws pob cwmpas oedran.

Golygodd y llwyddiant hwn ein bod ni wedi gorfod archebu strwythur mwy eleni er mwyn sicrhau bod lle i bawb yn y gigs gyda'r nos, ac erbyn diwedd yr wythnos roedd yn amlwg y byddai wedi bod yn fanteisiol cael ardal fwy ar gyfer y bar ynghyd â rhagor o staff hefyd.

Chwaraeodd cyfryngau cymdeithasol ran flaenllaw yn y llwyddiant hwn, ynghyd â brand trawiadol a lliwgar. Roedd hi'n ugain mlynedd ers cynnal Maes B am y tro cyntaf yn Eisteddfod 1997 yn Y Bala ac yn hanner can mlynedd ers record eiconig Y Blew, Maes B, nol yn 1967, ac roedd y brand yn ddathliad o'r ddau beth yma mewn ffordd gyfoes a deniadol.

Cafodd nwyddau Maes B 20 eu cynhyrchu a'u gwerthu yng Nghaffi Maes B yn ystod yr wythnos, gyda'r crysau chwys unwaith eto yn gwerthu'n arbennig o gyflym.

Cynhyrchwyd promo pwrpasol a rannwyd yn eang ar draws platfformau cyfryngau cymdeithasol. Cafodd ei wylio 16,000 o weithiau, a bu'n rhan bwysig o'r gwaith hyrwyddo eleni. Mae fideos fel hyn yn rhan bwysig o'r gwaith hyrwyddo ac mae angen canolbwyntio mwy ar gynhyrchu pytiau fideo ar gyfer hyrwyddo Maes B a cherddoriaeth ar y Maes yn y dyfodol.

Crëwyd Geofilter Snapchat ar gyfer Maes B unwaith eto eleni, a chafodd ei ddefnyddio 3,655 o weithiau rhwng y dydd Mawrth a'r dydd Sadwrn, a chafodd ffilter yr Eisteddfod ei hun ei ddefnyddio 4,039 o weithio, gyda'r ffilteri'n cael eu gweld bron i 760,000 o weithiau ar yr ap cymdeithasol yn ystod y cyfnod.

Mae prosiect Maes B hefyd wedi bod yn fodd i godi proffil a hyrwyddo Maes B yn arbennig yn nalgylch yr Eisteddfod, gyda thaith yn ymweld ag ysgolion Llangefni., Bodedern a Syr Thomas Jones, Amlwch, yn y cyfnod hyd at yr Eisteddfod.

Yn ogystal, mae hyrwyddo lleoliadau fel Caffi Maes B a Llwyfan y Maes i gynulleidfa Maes B yn ffordd ardderchog o ddenu cynulleidfa ifanc i'r Maes yn ystod y dydd, a bu hyn yn llwyddiannus eto eleni. Byddwn yn parhau i wneud hyn hefyd yn y dyfodol.

Eleni eto, roedd llawer o waith wedi'i wneud er mwyn sicrhau bod ardal Maes B yn ddeniadol, ac rydym yn ddiolchgar i Brifysgol Aberystwyth, noddwyr Maes B, am sicrhau bod eu presenoldeb yn gweddu i'r ardal, a diolch hefyd i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth a'u cymorth wrth ddod ag arteffactau i ddatblygu'r ddelwedd ymhellach.






## Argymhellion:

- Parhau i gynnig tocynnau bargen gynnar ar gyfer Maes B yn y dyfodol
- Sicrhau bod ardal y bar yn ddigon mawr a bod digon o staff ar gael
- Parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Maes B a cherddoriaeth ar y Maes, gan edrych ar ddefnydd creadigol a deniadol o bob platfform
- Parhau i gynhyrchu promo a fideos byrion i hyrwyddo Maes B yn y ddyfodol
- Parhau i hyrwyddo Maes B a cherddoriaeth Gymraeg drwy’r prosiect cerddoriaeth, gan edrych ar ffyrdd newydd ac amgen o gyrraedd cynulleidfa ifanc a’u denu i Faes B
- Parhau i gydweithio gyda phartneriaid amrywiol i hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg a Maes B drwy gydol y flwyddyn
- Parhau i gynhyrchu llyfryn cerddoriaeth rhad ac am ddim ar gyfer mynychwyr Maes B fel ffordd o hyrwyddo gweithgareddau ar y Maes

# Hygyrchedd

Mae pob Maes yn wahanol ac mae gwersi i'w dysgu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn gwella ein darpariaeth yn y dyfodol.

Mae'n rhaid rhoi lle mwy creiddiol i anghenion ein hymwelwyr anabl yn ystod y broses cynllunio yn y dyfodol, ac rydym angen teilwra elfennau o'n gwaith yn benodol fel eu bod yn hygyrch i ymwelwyr anabl, bregus a hŷn.

Nid oedd modd sicrhau gwasanaeth bws ar gyfer y Maes eleni, ac roedd hwn yn ddiffyg pendant.  Mae'n rhaid sicrhau bod y gwasanaeth yma ar gael o hyn ymlaen, gan ei fod yn adnodd gwerthfawr i'n hymwelwyr.

Byddem wedi elwa o gael dwy fynedfa, ac mae'n rhaid rhoi mwy o ystyriaeth i ofal cwsmer a hygyrchedd wrth wneud y penderfyniadau hyn yn y dyfodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar hwylusder trefnu a staffio.

Yn ogystal, roedd y man gollwng ar gyfer bysiau a thacsis yn rhy bell o'r brif fynedfa, a byddwn yn ceisio sicrhau bod modd cael man gollwng mor agos i'r fynedfa â phosibl yn y dyfodol.

Mae nifer y rheini sy'n dymuno derbyn gwasanaeth gan Byw Bywyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd, ac amserlen y Maes wedi newid a datblygu, gyda rhagor o weithgareddau gyda'r hwyr ac o amgylch y Maes.  Byddwn yn trafod ehangu a datblygu'r hyn sydd ar gael ar gyfer ymwelwyr anabl gyda'r cwmni dros y misoedd nesaf, a byddwn hefyd yn atgoffa ein hymwelwyr o'r angen i gysylltu ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod cadair neu sgwter ar gael ar eu cyfer.

Mae angen sicrhau rhagor o fygis ar y Maes yn y dyfodol.  Roedd pob bygi'n cael eu defnyddio i gludo ymwelwyr o Dawns i'r man gollwng ar gyfer bysiau a thacsis, a golygodd hyn nad oedd unrhyw gymorth ar gael yng ngweddill y Maes os oedd rhywun angen cymorth.

Achosodd y glaw ac ansawdd y tir broblemau ychwanegol, gan ei wneud yn anodd iawn i bobl allu symud o gwmpas y Maes yn hawdd, ond roedd yn gyfle i ni ddysgu amryw o wersi am y gwasanaeth rydym yn ei gynnig.

Rydym yn ceisio gwella a datblygu'r profiad ymwelwyr ym mhob rhan o'r Maes yn barhaus, ac fe fydd anghenion ymwelwyr hŷn, bregus ac anabl yn elfen a fydd yn cael blaenoriaeth dros y blynyddoedd nesaf.

Un datblygiad eleni oedd y Llecyn Llonydd, adeilad oedd ar gael ar gyfer unrhyw un a oedd eisiau gadael sŵn y Maes am ychydig amser, a dylid parhau gyda'r adeilad yma yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio gyda mudiad Attitude is Everything, sy'n gweithio er mwyn gwneud gwyliau'n hygyrch ar gyfer ymwelwyr anabl, ond mae canran sylweddol o ymwelwyr i'r Eisteddfod yn bobl hŷn a bregus ac mae angen sicrhau ein bod yn gwneud cymaint â phosibl i ymateb i'w anghenion hwy hefyd.

Mae angen edrych ar ein llwybrau ac ystyried a oes gormod o lwybrau cerrig ar y Maes sy'n effeithio ar hygyrchedd.  Hefyd, mae angen creu llwybr pwrpasol ac addas ar gyfer ymwelwyr bregus ac anabl wedi'i oleuo o'r maes carafanau ac o'r maes parcio anabl i'r Maes bob blwyddyn.

## Argymhellion:

- Sichau bod anghenion ymwelwyr anabl, bregus a hŷn yn rhan greiddiol o'n holl waith cynllunio
- Sicrhau bod gwasanaeth bws ar gael o amgylch y Maes
- Trafod ehangu'r gwasanaeth llogi sgwter / cadair olwyn gyda chwmni priodol
- Sicrhau bod rhagor o fygis ar gael ar y Maes yn y dyfodol
- Ceisio sicrhau bod man gollwng bysiau a thacsis mor agos â phosibl at y brif fynedfa
- Sicrhau bod llwybr addas a phwrpasol ar gael o'r maes carafanau a maes parcio anabl i'r fynedfa
- Blaenoriaethu profiad ymwelwyr anabl ym mhob elfen o'n gwaith
- Parhau i gydweithio gyda chwmni Attitude is Everything, ynghyd â datblygu a gwella arbenigedd ein staff yn y maes a datblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n gweithio ar y Maes
- Penodi aelod o'r Tîm Rheoli i gymryd cyfrifoldeb llawn am faterion hygyrchedd ac i sicrhau bod hyfforddiant achrededig ar gael
- Sicrhau bod hygyrchedd yn cael blaenoriaeth gan y Tîm Rheoli dros y blynyddoedd nesaf










# Gwirfoddoli a Stiwardio

Gwirfoddolodd dros 260 o unigolion yn ystod y prosiect cymunedol yn Ynys Môn, ac roedd gennym dros 180 o wirfoddolwyr ar y Maes ym Modedern. Ni fyddai modd cynnal yr Eisteddfod na'r prosiect cymunedol heb gymorth a chefnogaeth ein gwirfodolwyr ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw oll am eu hymroddiad a'u gwaith.

Er bod modd cofrestru i wirfoddoli ar-lein ers rhai blynyddoedd, eleni oedd y tro cyntaf i'r porth gwirfoddoli fod yn weithredol. Pwrpas hwn oedd galluogi unigolion i ychwanegu eu hargaeledd eu hunain am yr wythnos. Mae angen edrych ar y system a gweld a oes modd ei symleiddio rywfaint cyn ei lansio ar gyfer Eisteddfod 2018, ac mae angen sicrhau bod modd tynnu'r wybodaeth o gefn y we yn hawdd er mwyn creu'r amserlenni am yr wythnos mewn cyfnod prysur.

Yn dilyn argymhellion gan Bwyllgor Profiad Ymwelwyr Eisteddfod 2018, datblygwyd yr hyfforddiant a gynigir cyn wythnos yr Eisteddfod, gan sicrhau bod ein rhaglen boced a'r map yn barod er mwyn iddyn nhw gael copi a chael gweld beth oedd yn digwydd yn ystod yr wythnos. Yn ogystal, cynhyrchwyd bagiau defnydd yn arbennig ar gyfer ein gwirfoddolwyr fel bod modd cyflwyno pecyn iddyn nhw wrth gyrraedd yr hyfforddiant. Mae rhagor i'w wneud er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad, a bydd yr elfen hon yn datblygu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Rydym yn edrych ar ddatblygu cylchlythyr uniongyrchol ar gyfer gwirfoddolwyr ynghyd â sesiwn friffio am weithgareddau artistig yr Eisteddfod ynghyd â'r wybodaeth am ofal cwsmer ac iechyd a diogelwch a gynigir ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd, mae gwirfoddolwyr mewn gwahanol rannau o'r Maes yn gweithio am gyfnodau gwahanol, ac mae angen cysoni hyn gan sicrhau bod pob shifft yr un hyd, gydag unrhyw fuddiant a gynigir yn gyson ar draws pob lleoliad. Byddwn yn ystyried hyn dros y misoedd nesaf, gyda golwg o gyflwyno ambell newid yng Nghaerdydd, ac yna newidiadau pellach o 2019 ymlaen.

Yn dilyn blynyddoedd o wasanaeth, daeth cyfnod Alun Puw a Dwyryd Williams i ben fel Cydlynwyr y Babell Lên. Rydym yn ddiolchgar iddyn nhw am eu cyfraniad, a byddwn yn mynd ati i geisio sicrhau gwasanaeth gwirfoddolwyr eraill i barhau â'r gwaith i'r un safon yn y dyfodol. Eleni hefyd, ymddeolodd Robin P Jones ar ôl gwirfoddoli yng nghefn y llwyfan am gyfnod o 30 mlynedd. Diolch iddo am ei holl wasanaeth.

Eleni, llwyddodd y pwyllgor drama ym Môn i recriwtio nifer fawr o wirfoddolwyr i weithio yn y Pentref Drama'n ystod yr wythnos, a'r bwriad yw datblygu'r syniad hwn yn 2018 ac annog y pwyllgorau eraill i gymryd cyfrifoldeb am sicrhau gwirfoddolwyr i weithio mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Maes. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Profiad Ymwelwyr wedi bod yn trafod sut i ddenu gwirfoddolwyr, a bydd hyn yn un o flaenoriaethau'r pwyllgor hwnnw dros y misoedd nesaf.

Eleni, cafwyd cymorth gan Gwmni Dafydd Hardy a fu'n gwirfoddoli yn y Ganolfan Ymwelwyr yn ystod yr wythnos, Gweithiodd hyn yn arbennig o dda gan fod ganddyn nhw brofiad helaeth o ofal cwsmer a delio gyda phobl. Gobeithio y gellir cynnig cyfleoedd tebyg yn y dyfodol.

Rydym hefyd yn edrych ar gynnig cyfleoedd gwirfoddoli i noddwyr sydd wedi ymrwymo i gefnogi'r Eisteddfod, a gallai cwmni gwahanol fod yn darparu tîm o wirfoddolwyr bob dydd.

## Argymhellion:

- Gweithio gyda'r darparwyr gwe i geisio symleiddio rhywfaint ar y porth gwirfoddolwyr ar-lein cyn ei lansio yn 2018

- Parhau i ddatblygu'r hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr yn y cyfnod cyn yr Eisteddfod

- Ceisio ennyn nawdd i'n galluogi i greu ardal ar gyfer gwirfoddolwyr cyn ac ar ôl eu shifftiau ar y Maes

- Cysoni hyd pob shifft ynghyd ag unrhyw fuddiant a gynigir i wirfoddolwyr ar y Maes

- Recriwtio cydlynwyr newydd i gymryd cyfrifoldeb am y Babell Lên

- Annog pwyllgorau lleol i gymryd cyfrifoldeb am recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer gwahanol leoliadau

- Creu pecyn gwirfoddoli i fynd at noddwyr sy'n gyflogwyr mawr yn nalgylch yr Eisteddfod

- Cyflwyno cylchlythyr penodol ar gyfer gwirfoddolwyr ac edrych ar gyflwyno cyfnod recriwtio byrrach ac ychydig yn hwyrach yn 2018



# Cyfathrebu a chysylltiadau lleol

Trefnwyd amryw o ymgyrchoedd cyfathrebu eleni, nifer gan yr Eisteddfod ei hun, ac eraill mewn partneriaeth gyda mudiadau fel Menter Iaith Môn. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd, roedd gennym ymgyrch hysbysebu ar S4C. Lansiwyd yr ymgyrch mewn pryd i hyrwyddo'r maes carafanau a stondinau ar 1 Chwefror, a bu'r ymgyrch yn parhau am gyfnod o dri mis, ac roedd felly'n cynnwys dechrau cyfnod y Fargen Gynnar hefyd. Roedd yr hysbyseb wedi'i gynhyrchu mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn a'r bwriad oedd dangos yr Eisteddfod a'r ardal ar eu gorau. Cafwyd ymateb dda i'r hysbyseb.

Trefnwyd amryw o ymgyrchoedd lleol ar y cyd gyda Menter Iaith Môn, a bu'n bleser cydweithio drwy gydol y prosiect. Ymysg yr ymgyrchoedd a drefnwyd oedd ymgyrch Ffoli ar Fflagiau, lle trefnwyd prynhawn o greu fflagiau 'bunting' ym Modedern er mwyn addurno'r ardaloedd lleol, a braf yw clywed bod prynhawn tebyg yn cael ei drefnu eto yng Nghaergybi yn fuan.

Gwnaethpwyd llawer o waith yn targedu cwmnïau a busnesau yn ardal Caergybi er mwyn eu hannog i baratoi ar gyfer yr Eisteddfod, a bu'r Eisteddfod a'r Fenter yn cydweithio ar hyn. Yn ogystal, cynhaliwyd amryw o frecwastau busnes ar draws y dalgylch yn sôn am yr Eisteddfod ac am fanteision defnyddio'r Gymraeg ym myd busnes.

Er bod mwyafrif trigolion yr ardal yn falch o weld yr Eisteddfod yn ymweld ag ardal Bodedern, roedd ambell berson yn poeni am effaith y system unffordd ar eu busnesau. Roedd y system wedi'i chytuno gyda'r Cyngor Sir a chyda'r gwasanaethau brys, ond byddwn yn sicrhau ein bod yn cynnal ymgynghoriad lleol ar faterion fel hyn ynghynt yn y dyfodol, ac yn gwneud ein gorau i fod yn gymydog ystyrlon.

Datblygwyd pecyn ysgolion i hyrwyddo'r Eisteddfod i ddisgyblion CA2, gan ddefnyddio'r Siarter Iaith, y fframwaith digidol newydd, rhifedd a llythrennedd er mwyn cyflwyno gwersi, gwaith grŵp, gwaith cartref a gweithgareddau allgyrsiol am yr iaith a'r Eisteddfod. Cynllun peilot oedd hwn eleni a dosbarthwyd copi i bob ysgol gynradd yn y dalgylch, a'r gobaith yw ei gynhyrchu'n gynharach yn y flwyddyn yn y dyfodol.

Cafwyd rhaglen all-ymestyn cynhwysfawr mewn ysgolion eleni, gyda thros 1,000 o blant wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn. Roedd gweithgareddau'n cynnwys gweithdai celf, sioe gan gwmni Mewn Cymeriad, ffair wyddoniaeth, gweithdai drama, dawnsio a llawer mwy.

Llwyddwyd i gyhoeddi'r Rhaglen Swyddogol erbyn wythnos Gŵyl y Cyhoeddi ar ddiwedd Mehefin. Diolch i Siân Teifi am ei holl waith yn golygu cyfrol ddeniadol a lwyddodd i werthu allan fwy na heb. Byddwn yn chwilio am gwmni newydd i greu'r gyfrol y flwyddyn nesaf.

Rydym yn teimlo bod y llyfryn hyrwyddo a gyhoeddir ym mis Mawrth wedi colli'i bwrpas mewn gwirionedd, yn enwedig yn sgil poblogrwydd prynu tocynnau ar y we a chyfryngau cymdeithasol. Ein bwriad ar gyfer 2018 yw cynhyrchu taflen llawer llai sy'n gyflwyniad cyffredinol i'r Eisteddfod. Mae llawer o gwestiynau eisoes am leoliad gwahanol bethau yn y Bae, felly byddai'n braf gallu cynhyrchu'r daflen hon yn fuan yn y flwyddyn yn hytrach na gorfod aros am holl fanylion y cyngherddau.

Mae ein gwefan yn parhau i esblygu a datblygu'n barhaus. Mae'n braf cydweithio gyda ffotograffwyr sy'n rhyddhau lluniau i ni'n syth ac yn ein galluogi i greu orielau lluniau dyddiol yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Rydym hefyd yn cynnwys y canlyniadau'n ddyddiol, ynghyd â newyddion o bob math. Mae'r digwyddiadur yn dal i fod yn boblogaidd, ond mae angen i ni edrych ar ei ddiwyg ynghyd â chyflwyno'r wybodaeth mewn tablau yn ogystal â'r fformat presennol er mwyn sicrhau bod pobl yn ei chael yn hawdd cael hyd i wybodaeth.

Diolch i Bwyllgor Profiad Ymwelwyr Eisteddfod Caerdydd am edrych ar y wefan er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch ar gyfer ein hymwelwyr, a byddwn yn gwneud rhai newidiadau i'r safle dros y misoedd nesaf cyn i'r rhan fwyaf o wybodaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf fynd yn fyw.

Bydd cyflwyno gwybodaeth am Eisteddfod Caerdydd yn heriol gan fod cymaint o leoliadau gwahanol a byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r darparwyr gwe er mwyn darganfod y ffordd orau o wneud hyn.  Rydym hefyd yn awyddus iawn i ddatblygu ap syml ar gyfer ymwelwyr yn ystod wythnos yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf, a gobeithio y gallwn sicrhau cyllid ar gyfer datblygu hyn yn fuan.

Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Eisteddfod yn parhau i ddenu dilynwyr, ac eleni, roedd gennym gyfrifon ar gyfer rhagor o ardaloedd ar y Maes.  Mae hyn yn ffordd dda o rannu gwybodaeth heb i'r prif gyfrif gael ei or-ddefnyddio, gyda gwahanol gyfrifon yn gallu rhannu ac ail-drydar gwybodaeth ei gilydd.

Cyhoeddwyd amserlenni'r is-bafiliynau ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y misoedd cyn yr Eisteddfod, er mwyn rhoi blas i bobl o'r hyn sydd ar y gweill.  Byddwn yn parhau i wneud hyn y flwyddyn nesaf, gan ei fod yn ffordd arbennig o dda o annog pobl i brynu tocynnau'n gynnar.

Byddwn hefyd yn parhau gyda'r cylchlythyr tocynnau sydd wedi ennill ei blwyf, a byddwn yn edrych ar gynhyrchu cylchlythyron eraill wedi'u hanelu at wahanol garfannau o'n bas data yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.  Mae hyn eisoes yn digwydd gyda chystadleuwyr a byddwn yn edrych ar rannau eraill o'r bas data dros y misoedd nesaf.

Rydym wedi penderfynu mynd ati ail-frandio'r Eisteddfod.  Rydym yn teimlo bod angen rhagor o gysondeb rhwng deunyddiau ac o fewn y Maes. Y gobaith yw creu brand y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo'r gwaith yn ystod y flwyddyn ac ar y Maes, gyda defnydd cryf o'r gair 'Eisteddfod'.  Rydym yn gobeithio y bydd y brand yn ei le erbyn Mehefin 2018, ac y bydd popeth yn dilyn y brand newydd o ganol Awst ymlaen.

Rydym hefyd eisiau edrych eto ar y nwyddau sydd gennym yn ein siop ar-lein ac ar gael yn yr Eisteddfod ac rydym yn ystyried cael cyngor ar sut fath o nwyddau a chynnyrch y dylem eu cynhyrchu wrth edrych i'r dyfodol.

Roeddem yn ffodus i gael cydweithio gyda Grŵp Gwyliau Prifysgol Caerdydd eleni ar brosiect ymchwil cynhwysfawr yn edrych ar ein hymwelwyr.  Rydym wedi derbyn canfyddiadau cychwynnol yr ymchwil hwn a byddwn yn mynd ati i'w dadansoddi ymhellach a bydd y canlyniadau yn ein helpu i lywio ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf.  Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r canlyniadau'n fuan yn y flwyddyn newydd.









## Argymhellion:

- Parhau i chwilio am gyfleoedd i redeg ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyd ar lawr gwlad
- Ystyried hysbysebu at y teledu i gyd-fynd â’r cyfnod gwerthiant cynnar yn y dyfodol
- Sicrhau ein bod ni’n ymgynghori ar unrhyw gynlluniau a allai effeithio ar drigolion lleol ynghynt yn y dyfodol
- Cydweithio gydag athrawon i ddatblygu’r pecyn ysgolion ymhellach gan adeiladu ar y cynllun peilot yn Ynys Môn
- Cynhyrchu taflen newydd i gyflwyno Eisteddfod Caerdydd i’r dalgylch yn fuan yn y flwyddyn newydd
- Parhau i ddatblygu’r wefan ac edrych ar ffyrdd i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd hygyrch a deniadol
- Parhau i hyrwyddo’r Eisteddfod drwy ddefnyddio amrywiol blatfformau digidol, gan edrych ar ffyrdd o wneud defnydd o’r dechnoleg ddiweddaraf yn y Gymraeg
- Cwblhau’r broses o ail-frandio'r Eisteddfod erbyn Mehefin 2018
- Cyhoeddi canfyddiadau ymchwil Grŵp Gwyliau Prifysgol Caerdydd yn fuan yn y flwyddyn newydd

# Tocynnau

Roedd gwerthiant tocynnau’n dda iawn eto eleni, gyda’r cynllun Bargen Gynnar yn cael ei ehangu i gynnwys cyngherddau hefyd am y tro cyntaf.

Llwyddwyd i werthu pob tocyn ar gyfer Gig y Pafiliwn ymhen ychydig oriau eleni.  Roedd y gig y llynedd wedi bod yn gymaint o lwyddiant, a’r ffaith i ni gyhoeddi’r gig ar gyfer Ynys Môn ar Ddydd Miwsig Cymru ym mis Chwefror hefyd yn help.  Yn ogystal, roedd promo wedi’i gynhyrchu ar gyfer y gig a chafodd hwn ei rannu’n helaeth ar draws cyfryngau cymdeithasol gan greu diddordeb ymysg pobl o bob oed.

Llwyddodd noson Tudur Owen i werthu allan o fewn deuddydd hefyd, gan greu record Newydd i’r Eisteddfod.  Pan lwyddwyd i ryddhau rhagor o docynnau ar gyfer y noson honno yn nes ymlaen yn y flwyddyn, gwerthodd y rhain o fewn awr.  Mae’n biti mawr nad oedd modd rhyddhau pob tocyn ar yr un pryd, gan ein bod wedi gorfod siomi nifer fawr o bobl yn y cyfnod ar ôl i’r tocynnau gwreiddiol werthu allan.

Eleni gwelwyd gwerth marchnata digidol ar ei orau.  Mae’r cylchlythyr tocynnau’n gweithio’n arbennig o dda, ac mae modd tracio gwerthiant drwy hwnnw sydd yn ddefnyddiol iawn.  Yn ogystal, bu’r gwaith ar gyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus iawn, gan greu diddordeb mawr yn yr Eisteddfod ar draws gwahanol blatfformau.

Mae’r gwaith o greu’r system docynnau ar gyfer y wefan yn cymryd amser, ac felly mae angen sicrhau bod y cynllun seddi ar gael yn gynharach. Mae’n anodd cael popeth yn ei le ar y gorau, a byddai derbyn y cynllun ynghynt yn gwneud pethau’n haws ac yn osgoi camgymeriadau.

Defnyddiwyd system newydd ar gyfer cofrestru tocynnau perfformwyr, ac er ei bod yn anodd ei defnyddio yn y swyddfa, roedd yn llawer haws i’r artistiaid a’r perfformwyr.  Oherwydd hyn, rydym yn argymell datblygu ein system ein hunain.  Byddai hyn yn ein galluogi i greu rhywbeth sydd wedi’i theilwra ar gyfer ein hanghenion ni, a byddai hyn hefyd yn galluogi bod gennym ni reolaeth dros y geiriad a thros yr hyn rydym ei angen er mwyn prosesu tocynnau.

Rydym yn parhau i wella’r system docynnau ar-lein a chafodd blaen y wefan ei ail-ddatblygu eleni, gan ei wneud yn haws o ochr y cwsmer.  Rydym yn dal i gael trafferthion gyda newid ambell gymal Saesneg a chyfieithiadau gwael, ac mae’n broses hir a diddiolch ceisio sicrhau'r newidiadau hyn.

Gweithiodd y system tocynnau cystadleuwyr yn well eleni, gan fod yn fwy llym na’r gorffennol er mwyn ceisio osgoi problemau, a gweithio gyda bas-data pwrpasol a hawdd i’w ddefnyddio. Rydym yn bwriadu parhau gyda’r system hon y flwyddyn nesaf.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi dechrau gwerthu tocynnau ar ran rhai o’r partneriaid, ac eleni roeddem yn gwerthu ar ran Theatr Bara Caws a Theatr Genedlaethol Cymru.

Rydym yn bwriadu creu dogfen i amlinellu’r hyn rydym yn ei gynnig fel gwasanaeth gwerthu tocynnau ar gyfer ein partneriaid, er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i weithio’n hwylus yn y dyfodol.

Mae gallu prynu tocynnau Maes, cyngherddau, Maes B ynghyd â pherfformiadau gan ein partneriaid mewn un lle yn adnodd cyfleus iawn i’n cwsmeriaid, ac mae’n braf gallu cynnig y gwasanaeth hwn.

## Argymhellion:

- Parhau i gynnig tocynnau Bargen Gynnar ar gyfer y cyngherddau
- Parhau gyda'r arfer o lansio'r tocynnau ar ddechrau Ebrill a rhedeg Bargen Gynnar tan 30 Mehefin
- Parhau i ddefnyddio'r cylchlythyr tocynnau a chyfryngau cymdeithasol fel y prif arf marchnata ar gyfer hyrwyddo tocynnau, yn arbennig cyngherddau a Maes B
- Sicrhau bod y cynllun seddi'n barod ac ar gael mewn da bryd er mwyn datblygu'r system docynnau yn y dyfodol
- Datblygu system ein hunain ar gyfer cofrestru tocynnau perfformwyr, gan weithio gyda'r darparwyr gwe i'w chael yn barod erbyn cyfnod Eisteddfod 2018
- Parhau i ddilyn yr un system tocynnau cystadleuwyr yn 2018
- Cynhyrchu dogfen sy'n amlinellu'r gwasanaeth gwerthu tocynnau rydym yn ei gynnig i bartneriaid

